



CROESO I
YSGOL GYNRADD GYMRAEG
TONYREFAIL



www.ygg-tonyrefail.cymru



yggtonyrefail@yggtonyrefail



CROESO

Dymuna'r staff a llywodraethwyr eich croesawu chi a'ch plentyn yn gynnes i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Gobeithio y cewch flynyddoedd hapus yn ein cwmni.

Gyda'n Gilydd: Disgyblion – Rhieni – Athrawon

Rydym eisiau i'n holl ddisgyblion fod yn hapus yn yr ysgol a mwynhau awyrgylch ofalgar, trefnus a symbylus fydd yn rhoi y cyfle i bob plentyn i gyflawni ei lawn/llawn botensial. Gobeithiwn wneud hyn drwy sicrhau partneriaeth glos rhwng holl ryngddeiliaid yr ysgol.

Mae cyd-weithio â rhieni yn hanfodol i lwyddiant a hapusrwydd pob plentyn yn yr ysgol. Rydym yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb sydd gennym fel ysgol gan fod cynifer o rieni wedi dewis gyrru eu plant i Ysgol Gymraeg Tonyrefail i dderbyn eu haddysg. Mae'r berthynas dda a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng yr ysgol, y rhieni, a'n disgyblion yn un yr ydym yn ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r ysgol.



Gweledigaeth yr Ysgol

Nod a gweledigaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yw sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y gefnogaeth a'r cyfle i gyrraedd eu llawn botensial a hynny mewn amgylchedd cynhwysol, gofalgar a hapus. Rydym yn annog ein disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus, yn ddinasyddion egwyddorol, ac ac i ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u hiaith.

Nodau ac Amcanion yr Ysgol yw:

- Cefnogi pob plentyn i ddatblygu i'w llawn botensial mewn awyrgylch cynhwysol, gofalgar a hapus
- Annog ein disgyblion i fod yn feddylwyr annibynnol ac yn gyfranwyr mentrus creadigol
- Meithrin ymdeimlad o hunan-barch yn ein disgyblion a pharch tuag at eraill yn yr ysgol a'r gymuned ehangach
- Cynnig ystod helaeth o brofiadau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau dysgu gydol oes ein disgyblion
- Rhoi arweiniad ac addysg i'r plant i'w paratoi i fod yn ddinasyddion egwyddorol, iach a hyderus
- Sicrhau bod llais pob unigolyn i'w glywed a bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal
- Helpu'r plant i ddysgu am, ac i ymfalchio yn eu treftadaeth hanesyddol a diwylliannol



Dechrau yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Diwrnod cyntaf eich plentyn yn yr ysgol!

Mae hwn yn ddiwrnod pwysig i chi a'ch plentyn. Gwnawn ein gorau glas i sicrhau ei fod yn un hapus a chofiadwy i bawb.

➤ **Dechrau Diwrnod Cyntaf eich Plentyn**

Ym mis Medi, gofynnwn i chi hebrwng eich plentyn i'r ystafell ddosbarth a'i helpu i dynnu a gosod ei g/chof ar y bachyn cywir. Bydd aelod o staff yn aros ar yr iard o 8:50am ymlaen i'ch cyfarch a'ch helpu ar eich diwrnod cyntaf. Wedyn, byddwn yn helpu eich plentyn i ymgartrefu yn y dosbarth.

Bydd gweithgareddau a thasgau wedi eu gosod o amgylch yr ystafell fel bod eich plentyn yn medru chwarae yn rhydd. Gofynnwn yn garedig i chi ffarwelio yn hwyliog os gwelwch yn dda gan fod plentyn yn medru synhwyro pan fo rhiant yn pryderu! Mae'n debygol y bydd rhai plant yn ddagreul wrth i rieni eu gadael ar y diwrnod cyntaf – mae hyn yn arferol, ond mae'r mwyafrif yn ymgartrefu yn gyflym. Byddwn yn cysylltu â chi os teimlwn fod eich plentyn yn gofidio ac yn parhau i grio am amser hirach na'r disgwyl. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â'r ysgol yn hwyrach yn y bore er mwyn lleddfu unrhyw bryderon sydd gennych.

➤ **Diwedd Diwrnod Cyntaf eich Plentyn**

Pan fyddwch yn casglu eich plentyn o'r ysgol am 12:00yh, gofynnwn eich bod yn aros wrth ddrws y dosbarth Meithrin. Bydd aelod o staff yn aros amdanoch ac yn galw am eich plentyn pan gyrhaeddwch chi. Byddwn yn trosglwyddo plant yn ddiogel i'w rhieni / gwarcheidwaid un ar y tro. Os bydd rhywun gwahanol i'r arfer yn casglu eich plentyn o'r ysgol, mae'n **hanfodol** eich bod yn dweud ymlaen llaw wrth yr ysgol, boed drwy alwad ffôn neu lythyr. **Ni fyddwn yn gadael i'ch plentyn adael gyda oedolyn arall heb ein bod wedi ein hysbysu ymlaen llaw.**

➤ **Gwasanaeth Flourish Cymru**

Os ydych yn defnyddio gwasanaeth gofal plant Flourish Cymru (sydd drws nesaf i'r dosbarth Meithrin) byddwn yn trosglwyddo'r plant yn saff i staff Flourish Cymru.

Trafnidiaeth

Bydd y plant sydd yn teithio i'r ysgol ar fws yn cael eu hebrwng o'r bws i'r ystafell ddosbarth yn y bore. Ar ddiwedd y diwrnod ysgol pan y maent yn llawn amser byddant yn cael eu hebrwng o'r ystafell ddosbarth i'r bws. Os nad yw eich plentyn yn dychwelyd adref ar y bws am unrhyw reswm rhaid rhoi gwybod i'r ysgol ymlaen llaw.

Rydym yn disgwyl ymddygiad o'r radd flaenaf gan bob disgybl sydd yn trafailio ar y bws i'r ysgol.

Presenoldeb

Rydym yn ceisio sicrhau lefel presenoldeb uchel ar gyfer pob disgybl gan fod absenoldebau yn effeithio ar gynnydd plentyn. Gofynnwn i rieni sicrhau bod eu plant yn yr ysgol erbyn 9:00yb. Bydd y drysau ar agor o 8:50yb i dderbyn y plant i'r dosbarth. Os ydynt yn cyrraedd ar ôl 9:10yb yna fe roddir marc bod y plentyn yn hwyr ar y gofrestr. Yn unol a rheolau'r llywodraeth, rhaid i bob rhiant esbonio absenoldeb eu plentyn/plant o'r ysgol. Dylai rhieni wneud hyn drwy alwad ffôn cyn gynted a phosib ar **ddiwrnod cyntaf** yr absenoldeb. Os nad oes eglurhad yn cael ei dderbyn am absenoldeb disgybl yna fe fydd yn cael ei gofnodi fel 'Absenoldeb Heb Awdurdod.'

Gwyliau

Mae gwybodaeth am wyliau ar gyfer y flwyddyn academaidd yn cael ei ddosbarthu i rieni ym mis Medi. Ni all y Pennaeth ganiatau cymeryd gwyliau yn ystod y tymor – ag eithrio rhesymau eithriadol. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn ceisio annog rhieni i beidio cymryd gwyliau achlysurol yn ystod y tymor gan ei fod yn amharu ar addysg yr unigolyn.

BRECWAST, CINIO A BYRBRYDAU



Clwb Brecwast

Mae Clwb Brecwast, rhad ac am ddim, ar gael yn yr ysgol bob bore o 8:15yb hyd 8:50yb. Llywodraeth Cymru sydd yn ariannu'r fenter hon. Rhaid cofrestru yn ddyddiol rhwng 8:15-8:30am wrth ddanfon eich plentyn i'r dderbynfa.

Cinio

Darperir cinio unwaith y bydd plant yn mynychu'r dosbarth meithrin yn llawn amser, y tymor ar ôl eu penblwydd yn bedair oed, bydd hwn yn rhad ac am ddim. Gall disgyblion sy'n mynychu Gwasanaeth Gofal Plant Flourish yn y prynhawniau archebu a thalu am bryd o fwyd poeth a ddarperir gan yr ysgol – bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei oruchwyllo gan staff Flourish. Gall disgyblion ddewis naill ai cinio ysgol poeth neu i ddod â phe cyn bwyd i mewn i'w fwyta.

Rhown wybod i riant os ydym yn pryderu nad ydyw eu plentyn yn bwyta ei c/chinio. Rhowch wybod i ni os oes unrhyw alergedd bwyd gan eich plentyn. Bydd ciniawau ysgol yn iachus a chaiff pob plentyn ddiod gyda'i f/bwyd.

Staffio

Yn ystod y Clwb Brecwast ac amser cinio bydd tîm o gynorthwyr profiadol yn gofalu am y plant, gan sicrhau ymddygiad da a diogelwch pob plentyn.

Byrbrydau Iachus

Gofynnwn ichi roi darn o ffrwyth/llysiau ym mag eich plentyn i'w fwyta amser chwara, a chofiwch roi ei enw/henw arno os gwelwch yn dda! Ni chaniateir losin, siocled, bisgedi, creision na chynnyrch â chnau o unrhyw fath i'w fwyta yn yr ysgol. Gall plant ddod a dŵr / sudd i'r ysgol i'w yfed.

Llaeth

Bydd eich plentyn yn cael 1/3 peint o laeth i'w yfed yn y bore yn rhad ac am ddim. Os oes gan eich plentyn alergedd i laeth, rhown gwpan o ddŵr yn ei le.

Gwisg Ysgol



Yn YGG Tonyrefail credwn fod gwisgo gwisg ysgol yn hynod o bwysig gan ei fod yn cyfranogi at ddatblygiad hunan ddisgyblaeth disgybl yn ogystal a chreu ymdeimlad o berthyn. Mae'n hynod bwysig fod pob un o'n disgyblion yn teimlo ei fod ef neu hi ar delerau cyfartal a'i g/chymheiriaid. Mae gwisg ysgol yn gosod hinsawdd o safonau uchel a threfn yn yr ysgol a gofynnwn am gydweithrediad ein rhieni gyda'r agwedd hon o fywyd yr ysgol. **Does dim rhaid i wisg ysgol arddangos logo'r Ysgol.**

Ein gwisg ysgol yw:

- Sgert/ ffrog/ trowsus/siorts llwyd
- Crys/ blows wen
- Tei goch
- Crys polo plaen coch/gwyn neu gyda logo yr ysgol
- Ffrog haf gingham coch a gwyn (dewisol)
- Crys chwys/cardigan/siwmpwr plaen goch neu gyda logo yr ysgol
- Fleece goch ar gael gyda logo yr ysgol
- Esgidiau du
- Hetiau haul ar gael gyda logo yr ysgol

Rydym yn annog rhieni yn gryf i wisgo eu plant yng ngwisg ymarfer corff yr ysgol.

Ein gwisg ymarfer corff

- Crys t plaen gwyn
- Siorts plaen du
- Trowsus tracwisg llwyd a chrys chwys coch
- Traeneri/dapiau

Gellir ffonio Mrs Murphy ein hysgrifenyddes am fwy o fanylion.

Bydd angen dillad diwrnod gwlyb a phâr o 'wellingtons' ar eich plentyn (i'w cadw yn yr ysgol) ar gyfer ein sesiynau awyr agored a 'Dydd Gwenerer Gwyllt'.

Gofynnwn yn garedig ichi roi **enw eich plentyn ar bob dilledyn** (gan gynnwys esgidiau) – mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu eu dychwelyd i'r disgybl cywir!

Gallwch archebu eich dillad dros y we ar www.schootrends.co.uk rhaid rhoi enw llawn yr ysgol i archebu : Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

CYSWLLT CARTREF

Rydym yn sylweddoli fod cefnogaeth rhieni i'r ysgol yn hynod o werthfawr ac edrychwn ymlaen at sefydlu partneriaeth gref rhwng y cartref a'r ysgol.

Themâu

Byddwn yn datblygu meysydd dysgu drwy themâu trawsgwricwlaidd yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru.

Tasgau Cartref

O bryd i'w gilydd gosodir tasgau cartref yn seiliedig ar yr hyn â ddysgir yn y dosbarth. Gofynnwn i rieni i **helpu** gyda'r tasgau hyn. Yn dilyn hyn, bydd cyfle gan y plant siarad am eu gwaith yn y dosbarth, os ydynt yn dymuno, ac i ddatlu eu llwyddiant. Bydd gwybodaeth am bob tasg yn cael ei yrru gartref gyda'ch plentyn.

Gofalu am Tedi Twt a Sali Mali

Rhown gyfle i'ch plentyn fynd â Tedi Twt (tegan dosbarth) adref i aros gyda chi a'ch teulu am y penwythnos. Gofynnwn eich bod yn trafod gyda'ch gilydd yr hyn a wnaethoch chi gyda gyda Tedi Twt dros y penwythnos a'ch bod yn tynnu llun / ysgrifennu pwt bychan yn y llyfr yn adrodd eich hanes cyn iddo/ iddi ei ddychwelyd. A fydddech cystal â sicrhau bod Tedi Twt yn cael ei ddychwelyd yn ôl i'r ysgol yn brydlon ar y dydd Llun. Mae hyn i sicrhau fod gan pob plentyn gyfle i ofalu am Tedi Twt yn ystod y flwyddyn. Mae Sali Mali yn mynd adref gyda plentyn fel gwobr am siarad Cymraeg campus.



PARATOI EICH PLENTYN AR GYFER DECHRAU YSGOL

Sut fedrwch chi helpu eich plentyn?

- ✓ Anogwch eich plentyn i ddatblygu sgiliau hunan gymorth ac i dyfu'n annibynnol wrth ddefnyddio'r tŷ bach.
- ✓ Dysgwch eich plentyn i olchi ei dd/dwylo ac atgyfnerthwch hyn yn gyson fel ei fod yn tyfu'n weithred naturiol. Bydd hyn yn helpu'ch plentyn i feithrin sgiliau hylendid personol ac i leihau ymlediad heintiau.
- ✓ Addysgwch eich plentyn i wisgo a dadwisgo ei g/choth yn annibynnol. Byddwn yn defnyddio'r ardal tu allan yn rheolaidd yn ystod y dydd, drwy gydol y flwyddyn ac fe fydd eich plentyn yn cael ei h/annog i wisgo ei g/choth yn annibynnol a'i dychwelyd i'r bachyn cywir ar ddiwedd y sesiwn.
- ✓ Anogwch eich plentyn i dacluso ei b/phethau. Yn y dosbarth, disgwylir i blant ofalu am adnoddau'r dosbarth ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dychwelyd i'r lle cywir yn barod i eraill eu defnyddio.

Yn ogystal, byddem ni'n gwerthfawrogi'n fawr pe baech chi yn medru:

- ✓ Trafod yr ysgol gyda'ch plentyn – soniwch am yr hwyl sydd i'w gael yno!
- ✓ Helpu eich plentyn i adnabod ei h/enw yn ysgrifenedig
- ✓ Darllen llyfrau a gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg fel Cyw gyda'ch plentyn defnyddio apps Cymraeg mor aml â phosib
- ✓ Rhoi cyfle i'ch plentyn ddefnyddio offer creadigol gartref e.e. creonau, pensiliau, papur, glud, siswrn a phaent





EICH CWESTIYNAU WEDI'U HATEB

Beth ddylwn i wneud os ydw i angen trafod fy mhlentyn ag aelod o staff?

Os oes angen ichi drafod gyda'r staff sydd yn dysgu eich plentyn, anfonwch nodyn neu ffoniwch y swyddfa ac fe drefnwn amser sydd yn gyfleus i bawb, ac sydd yn rhoi amser er mwyn trafod heb ymyrraeth.

Beth fydd yn digwydd os yw fy mhlentyn yn cael damwain tŷ bach?

Gwerthfawrogwn fod damweiniau'n digwydd, a byddwn yn delio â'r rhain yn gyflym ac mewn modd sensitif. Bydd dillad eich plentyn yn cael eu rhoi mewn cwdyn plastig a rhown ddillad ysgol glân iddo/iddi. Gofynnwn yn garedig ichi olchi a dychwelyd y dillad cyn gynted â phosib. Rydym yn awgrymu eich bod yn rhoi dillad isaf sbar ym mag eich plentyn – rhag ofn iddynt gael damwain tra yn yr ysgol. Os bydd eich plentyn yn trochi cysylltwn â chi ar unwaith os oes angen i chi i ddod i'w lanhau a'i g/wisgo mewn dillad glân.

Sut fydda i'n derbyn llythyrau/negeseuon gan yr ysgol?

Awgrymwn eich bod yn edrych ym mag eich plentyn ar ddiwedd bob dydd ar gyfer llythyron neu wybodaeth bwysig arall. Byddwn hefyd yn anfon negeseuon testun atoch. Mae'n hanfodol felly fod y rhifau sydd gennym ni ar gyfer eich ffonau symudol yn gyfredol.

Pryd fydd fy mhlentyn yn cael gwersi ymarfer corff?

Byddwn yn anfon llythyr gartref o fewn y pythefnos cyntaf yn esbonio amserlen yr wythnos i chi.

Ydi fy mhlentyn yn gallu gwisgo gemwaith i'r ysgol?

Yn unol a rheolau diogelwch yr ysgol a'r Awdurdod Lleol, dylai disgyblion â thyllau yn eu clustiau wisgo un par o stydiau yn eu clustiau yn hytrach na chylchoedd. Ni chanieteir gemwaith o gwbl yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.

Peidiwch â bod ofn holi os oes ganddoch gwestiwn i'w ofyn. Rydym ni yma i helpu!

Rydym yn eich annog i gysylltu â'r ysgol
os oes unrhyw beth yn achosi pryder i chi neu'ch plentyn.

Rhif Ffôn: 01443 670319

Ebost: admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru

